



GwE

BWLETIN GWYBODAETH
TYMOR YR HYDREF 2013

Pwrpas y bwletin hwn yw eich diweddarau am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â GwE.

Ymweliadau Tymor yr Hydref

Diolch i'r holl ysgolion a'u Penaethiaid am eu cefnogaeth i Arweinwyr System GwE wrth iddynt ymgymryd ag Ymweliad 1 am y tro cyntaf y tymor hwn. Wrth i'r ymweliadau hyn dynnu tua'u terfyn byddwn yn parhau â'r gwaith o drefnu cefnogaeth ar gyfer ysgolion cam 3 a 4 yn unol â gofynion ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth efo'r Awdurdodau Lleol.

Adborth

Yn dilyn ymweliadau tymor yr hydref, rydym yn awyddus i dderbyn adborth gennych.

Gallwch wneud hyn trwy ddilyn y linc:

<https://arolwg.gwynedd.gov.uk/index.php?sid=52932&lang=cy>

Rydym yn mawr obeithio y byddwch yn cymryd y cyfle i lenwi'r holiadur; mae eich adborth yn werthfawr i ni a bydd yn gymorth i ni adolygu'r gwasanaeth a'i ddatblygu.

Y 'Model Cenedlaethol' ar gyfer Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae Llywodraeth Cymru ar fin lansio'r Model uchod a fydd yn gyffredin ar draws y pedwar consortiwm yng Nghymru. Mae'r model yn disgwyl, dros amser, y bydd nifer cynyddol o wasanaethau gwella ysgolion yn cael eu cyflwyno ar lefel ranbarthol. Hyderwn yn fawr y bydd hyn yn cynyddu cynhwysedd GwE i gynnig lefelau uwch o gefnogaeth i ysgolion, yn arbennig felly trwy hyrwyddo cefnogaeth ysgol i ysgol. Mae angen i'r gyfundrefn addysg fanteisio yn llawn ar y sgiliau arbenigol sydd yn bodoli o fewn ein hysgolion a hynny er lles pob plentyn. Yn ogystal mae'n fwriad gan y Llywodraeth i greu un model cenedlaethol ar gyfer categorïddio ysgolion a deallwn y bydd hwn yn disodli'r 'matrics' presennol. Pan fydd y Model yn cael ei ryddhau mae'n hollbwysig bod ein hysgolion yn dylanwadu ar y broses o'i gyflwyno yn effeithiol yma yng Ngogledd Cymru.



Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd

Partneriaid Cynorthwyol Llythrennedd a Rhifedd

Cefndir

Ers Medi 2013 mae saith Partner Cynorthwyol (PC) Llythrennedd a Rhifedd wedi bod yn gweithio gydag ysgolion penodol o fewn rhanbarth gogledd Cymru. Mae'r unigolion hyn yn rhai sydd wedi'u hadnabod fel ymarferwyr rhagorol fyddai'n cefnogi ysgolion y rhanbarth i weithredu'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd. Aliniwyd y gwaith yma gyda chefnogaeth a fyddai ar gael i bob ysgol dan nawdd y Rhaglen Gymorth Genedlaethol. Mae cefnogaeth y PC yn cael ei dargedu at yr ysgolion hynny lle y mae'r angen mwyaf.

Cyfeirio ysgolion am gefnogaeth

Mae'r broses o gyfeirio ceisiadau am gymorth wedi gweithio'n dda y tymor hwn. Digwyddodd hyn trwy'r Uwch Arweinydd System, sy'n cydlynu'r gwaith, mewn un o ddwy ffordd:

- trwy bartneriaid y RhGG, sydd wedi llenwi'r ffurflen gyfeirio gytunedig yn dilyn ymweliad â'r ysgol dan sylw; neu
- trwy Arweinydd System yr ysgol neu'r Uwch Arweinydd System.

Ar ddechrau'r tymor roedd nifer y cyfeiriadau am gefnogaeth yn llai. Yn ystod y cyfnod yma defnyddiodd y PC eu hamser digyswllt i:

- baratoi deunyddiau enghreifftiol i'w rhannu gydag ysgolion;
- cyfarfod efo'i gilydd i gytuno ar ffyrdd cyson o weithredu ar draws y rhanbarth;
- dod yn gyfarwydd â deunyddiau cefnogi'r RhGG; a
- paratoi a chyflwyno hyfforddiant i wirfoddolwyr ar sut i gefnogi sgiliau darllen a rhifedd plant.

Yn ystod y cyfnod yma hefyd, bu'r PC yn ymweld â rhai ysgolion a oedd yn wynebu arolwg yn fuan i wirio eu cynlluniau ar gyfer gweithredu'r FFLIRh. Yn y cyfan bron o'r achosion, ymweliadau unigol oedd y rhain, heb angen am ddilyniant. Daeth y ceisiadau yma gan Arweinydd System neu Uwch Arweinydd System.

Fel cyflwyniad i'r Partneriaid Cynorthwyol, gweler gip ar eu gyrfa isod:

Enw	Swyddi/Profiad
Bernie Growcott	Mae Bernie Growcott yn athro CA2 ar hyn o bryd yn Cornist Park CP gyda chyfrifoldeb am Fathemateg yn CA2. Cafodd Bernie ei adnabod yn flaenorol fel ymarferwr rhifedd rhagorol yn Sir y Fflint a bu'n gweithio gyda 'Think Learn Challenge' yn datblygu deunyddiau enghreifftiol ar gyfer y FFLIRh.
Mali Williams	Ar hyn o bryd mae Mali Williams yn athrawes CA2 rhan amser yn Ysgol Pant Pastynog gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llythrennedd trwy'r ysgol. Mae ganddi ddiddordeb arbennig a phrofiad ym maes llythrennedd Cymraeg a Saesneg, yn enwedig ym meysydd darllen a drama.
Nicola Romaine	Ar hyn o bryd mae Nicola yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Dyffryn Iâl, lle y mae'n

	gyfrifol am arwain llythrennedd ac asesu ar draws yr ysgol. Mae wedi bod yn athrawes CA2 am y saith mlynedd ddiwethaf ond mae wedi addysgu'r holl ystod oed cynradd. Yn ddiweddar, treuliodd ddau dymor yn yr uned Cyfnod Sylfaen yn datblygu'r defnydd o ffonics. O fewn y rôl hon, a'i rôl fel athrawes ddsbarth, roedd Nicola yn rhoi blaenoriaeth i sgiliau llythrennedd fel conglfeini'r dysgu mewn unrhyw ddsbarth.
Helen Jones	Mae Helen ar hyn o bryd yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Llanllyfni gyda chyfrifoldeb am ddsbarth Blwyddyn 2 a 3 a Mathemateg yn y Cyfnod Sylfaen a CA2. Mae wedi treulio amser fel athrawes ymgynghorol Mathemateg gyda Cynnal. Mae ganddi ddiddordeb arbennig yn y Cyfnod Sylfaen, cwestiynu effeithiol a Mathemateg mewn cyd-destun.
Manon Esyllt Davies	Mae Manon ar hyn o bryd yn athrawes Blwyddyn 6 yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis ac yn gydlynnydd Mathemateg a TGCh. Mae ganddi ddiddordeb arbennig a phrofiad yng Nghyfnod Allweddol 2, pontio cynradd-uwchradd ac Asesu ar gyfer Dysgu.
Hâf Llewelyn	Bu Hâf yn athrawes CA2 yn Ysgol Beuno Sant, Y Bala am bron i bymtheng mlynedd, cyn gadael ar secondiad i weithio fel athrawes ymgynghorol y Gymraeg yng Ngwynedd a Môn. Mae ganddi ddiddordeb arbennig a phrofiad ym maes datblygu ysgrifennu a darllen.
Vicky Lees	Mae Vicky ar hyn o bryd yn athrawes CA2 yn Ysgol Bryn Hedydd, Rhyl lle y mae'n arwain llythrennedd ar draws yr ysgol, yn arbennig mewn meysydd megis darllen dan arweiniad ac ysgrifennu estynedig. Bu'n gweithio'n flaenorol gyda CBAC yn cymedroli proffiliau Saesneg CA2/CA3.
Eleri Haf Jones	Mae Eleri yn gweithio'n rhan amser ar hyn o bryd yn cefnogi dysgwyr gydag ADY ym maes rhifedd yn Sir Ddinbych. Mae ganddi ddiddordeb arbennig ym myd Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig mewn addysgu disgyblion ag anawsterau penodol megis dyslecsia a dyscalwlia. Mae Eleri hefyd yn hyfforddwr wedi'i achredu i gyflwyno hyfforddiant Rhifedd Dyfal Donc. Dyddiad cychwyn gyda GwE - Ionawr 2014

Dyfal Donc (Catch Up)

Yn dilyn hyfforddiant Dyfal Donc (Catch Up) yn ystod y tymor diwethaf, rydym yn ceisio trefnu hyfforddiant Dyfal Donc Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer tymor y Gwanwyn. Er mwyn ein galluogi i ddarparu digon o leoliadau mewn canolfannau cyfleus, rydym yn gofyn i chwi fynegi diddordeb yn y cyrsiau.

Mae gwybodaeth bellach ar wefan y Consortiwm (www.consortiwm.org) neu gallwch gysylltu trwy anfon e-bost at post@gwe.org.uk neu ffonio 0300 500 8087.

Am ragor o wybodaeth am Dyfal Donc (Catch Up) dilynwch y linc isod:



Rhifedd Dyfal Donc:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/catchupnumeracy/?ts=4&lang=cy>

Llythrennedd Dyfal Donc:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/catchupliteracy/?ts=4&lang=cy>

Penodiadau

Dros yr haf, penodwyd Marc Berw Hughes fel Uwch Arweinydd System GwE. Mae Marc wedi ymuno â'r gwasanaeth ers mis Medi. Fel cyflwyniad iddo, gweler gip ar ei yrfa isod:

Cychwynnodd ei yrfa fel athro yn Ysgol y Garnedd, Bangor yn 1993 cyn symud ymlaen yn fuan wedyn i addysgu yn Ysgol San Siôr, Llandudno. Ym 1996, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Capelulo, Penmaenmawr, lle y bu'n addysgu am flwyddyn a hanner. Penodwyd ef yn Bennaeth Ysgol Bodafon, Llandudno ac ar ôl chwe blynedd symudodd i lawr y lôn i fod yn Bennaeth Ysgol Craig y Don. Ychydig dros flwyddyn yn ôl, cafodd secondiad gydag ALI Conwy fel Swyddog Gwella Ysgolion Cynradd gyda chyfrifoldeb ychwanegol am ANG, CPCP a lledaenu arfer dda o fewn y Sir.

Grŵp Defnyddwyr GwE

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Grŵp Defnyddwyr yn ystod y tymor yma.

Gellir crynhoi'r prif faterion a drafodwyd fel a ganlyn:

- Darparu adborth ar Ymweliad 3 (tymor yr haf);
- Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd:
 - Y Rhaglen Gymorth Genedlaethol
 - Rhaglen Dyfal Donc
- Trefniadau Ymweliad 1 (tymor yr hydref);
- Prif flaenoriaethau GwE 2013-14; a
- Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.
- Aelodaeth y grŵp am y flwyddyn nesaf yw:

Aelodaeth	Cynrychiolaeth	
6 cynrychiolydd Uwchradd (1 cynrychiolydd o bob Awdurdod)	Ynys Môn Gwynedd Conwy	Annwen Morgan (Ysgol Uwchradd Bodedern) Gwyn Tudur (Ysgol Tryfan) Eithne Hughes (Ysgol Bryn Elian)



	Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam	Claire Armitstead (Rhyl High School) Bronwen Hughes (Ysgol Uwchradd Maes Garmon) Peter Agnew (Darland High School)
6 cynrychiolydd Cynradd (1 cynrychiolydd o bob Awdurdod)	Ynys Môn Gwynedd Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam	Eleri Edwards (Ysgol Llanbedrgoch) Rhys Howard Hughes (Ysgol Cae Top) Julia Buckley Jones (Ysgol Glan Gele) Tim Redgrave (Ysgol Esgob Morgan) Jeremy Griffiths (Ysgol Gwynedd) Linda Houston (Ysgol Madras)
1 cynrychiolydd Ysgolion Arbennig	Jonathan Morgan (Ysgol y Gogarth, Conwy)	
Llywodraethwyr Ysgolion - 1 cynrychiolydd o bob Awdurdod	Ynys Môn Gwynedd Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam	Derlwyn Hughes Rhian Roberts i'w gadarnhau i'w gadarnhau David Hytch Alison Fisher

Cyd-bwyllgor GwE

Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor yn ystod y tymor hwn. Y prif fater dan sylw oedd deilliannau disgyblion ar gyfer 2012/13.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ddydd Mercher, 12 Mawrth 2014.